
Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost

Y flwyddyn ariannol 2017-18

Diweddariad ar y farchnad

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Tachwedd 2018

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol

4

Gair am y ddogfen hon

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif ddata a phatrymau yn y sector post yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18. Mae'r fframwaith rheoleiddio a roddodd Ofcom ar waith ym mis Mawrth 2012, ac a adolygodd ym mis Mawrth 2017, yn cyflawni ein dyletswydd statudol o sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol. Mae trefn fonitro barhaus ac effeithiol yn dal i fod yn un o'r prif ffyrdd o ddiogelu'r fframwaith rheoleiddio, ochr yn ochr â mwy o ryddid prisio i'r Post Brenhinol.

Mae'r ddogfen hon, yn ogystal ag amrywiaeth eang o ddata rhyngweithiol, yn rhan o'n seithfed diweddariad monitro blynyddol ar y sector post. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar chwe phrif faes: dadansoddi'r farchnad llythyrau; y farchnad parseli; profiad defnyddwyr a busnesau bach o wasanaethau post; effeithlonrwydd a pherfformiad ariannol Busnes yr Adroddir Arno y Post Brenhinol ("y Busnes"); a chydymffurfiad y Post Brenhinol â'r rheoliadau. Mae'r Busnes yn rhan o fusnes y Post Brenhinol sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cyffredinol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos a pharseli bum diwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf, i'r holl gyfeiriadau yn y DU.

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae gan Ofcom ddyletswydd dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu, gan ystyried ei effeithlonrwydd a'i gynaliadwyedd ariannol.
- 1.2 Dan ein fframwaith rheoleiddiol rydym yn cyhoeddi diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost sy'n edrych ar dueddiadau'r farchnad, ein barn am gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol ac effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Dyma ein seithfed diweddariad blynyddol.
- 1.3 Yn ein diweddariad blynyddol y llynedd, daethom i'r casgliad fod y gwasanaeth cyffredinol yn debygol o barhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y dyfodol agos, gan nad oedd mesurau Royal Mail Group¹ o ran iechyd ariannol a safle ariannol yn dangos unrhyw broblemau o ran iechyd ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig, a gwnaethom nodi fod gan y Post Brenhinol gymhelliant cryf i fod yn fwy effeithlon yn y dyfodol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol.
- 1.4 Fel yr ydym yn ei esbonio yn y diweddariad hwn, rydym yn dal o'r farn bod y gwasanaeth post cyffredinol yn debygol o barhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn erbyn y cefndir o ganlyniadau hanner blwyddyn diweddar y Post Brenhinol a'r diweddariad masnachu heb ei drefnu i'w gyfranddalwyr, a oedd yn nodi ymysg pethau eraill bod y perfformiad cynhyrchedd yn y DU yn is o lawer na'r cynllun yn hanner cyntaf 2018-19 a bod disgwyl i'r perfformiad blwyddyn gyfan fod yn is o lawer na'r targed.
- 1.5 Gan gofio mai ein barn yn y blynyddoedd a fu oedd y byddai'r cynnydd parhaus o ran effeithlonrwydd yn debygol o wella proffidioldeb y Busnes yr Adroddir Arno (rhan o fusnes y Post Brenhinol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol ("y Busnes")) a helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, mae hyn yn destun pryder i ni.
- 1.6 Byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau hyn yn ofalus. Fel rhan o'n rhaglen fonitro, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag uwch dîm rheoli'r Post Brenhinol i ddeall eu safbwynt o ran dyfodol y gwasanaeth cyffredinol a'r cynlluniau sydd ganddynt i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau o ran perfformiad yn y rhan o'r busnes sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol.

Y farchnad llythyrau yn y DU

- 1.7 Roedd nifer y llythyrau wedi'u cyfeirio i lawr 5% yn 2017-18, i 11.1 biliwn eitem. Cafwyd cwmp tebyg y flwyddyn ddiwethaf. Bu cwmp o 6% mewn termau real yn refferiw cyffredinol llythyrau yn 2017-18, i £4,047m, un pwynt canran yn fwy na'r cwmp yn y refferiw y flwyddyn ddiwethaf.

¹ Rydym yn cyfeirio at Royal Mail PLC a'r grŵp o gwmnïau mae'n eu dal ar y cyd fel y Grŵp Perthnasol neu Royal Mail Group.

- 1.8 Roedd post mynediad (post sy'n cael ei ychwanegu at rwydwaith y Post Brenhinol gan ddarparwyr eraill i'w danfon i'r cwsmeriaid) yn cyfrif am 63% o gyfanswm y llythyrau wedi'u cyfeirio yn 2017-18, sydd wedi codi o 61% yn 2016-17.
- 1.9 Newidiodd y Post Brenhinol brisiau ei gynnyrch adwerthu a phost mynediad yn 2018. Ar gyfer cynnyrch adwerthu, roedd y cynnydd mewn prisiau termau real yn 2018 (0.1%) yn llai ar gyfartaledd na'r cynnydd mewn prisiau ar gyfer 2017 (0.1%). Ar gyfer post mynediad, roedd y cynnydd mewn prisiau termau real yn 2018 yn 2.1%.²

Y farchnad parseli

- 1.10 Cyflymodd y twf yng nghyfanswm nifer y parseli a fesurwyd ac mewn refeniw yn 2017-18. Cynyddodd y nifer 11% o'i gymharu â 2016-17, gan gyrraedd cyfanswm o 2.4 biliwn eitem. Cynyddodd cyfanswm y refeniw 5% mewn termau real, cyfradd is na'r cynnydd mewn nifer, gan gyrraedd £9.4 biliwn ac arwain at gwmp yn refeniw cyfartalog unedau. Yn y flwyddyn flaenorol, y twf blynyddol mewn nifer y parseli a refeniw oedd 7% a 3% yn y drefn honno.

Profiad Defnyddwyr a Busnesau o'r Gwasanaethau Post

- 1.11 Mae ein hymchwil yn nodi bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr preswyl yn fodlon ar y gwasanaethau post yn gyffredinol (87%) a'r Post Brenhinol (86%), sy'n eithaf tebyg i ffigurau a gofnodwyd yn y gorffennol. Mae tri chwarter y defnyddwyr preswyl (77%) yn fodlon ar werth am arian y gwasanaethau post yn gyffredinol. Hefyd, mae mwy na phedwar o bob pum busnes bach a chanolig sy'n defnyddio'r Post Brenhinol (85%) wedi dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol maent yn ei gael gan y Post Brenhinol, gyda bron i naw o bob deg busnes bach a chanolig (88%) a oedd yn defnyddio darparwyr eraill yn dweud eu bod yn fodlon.
- 1.12 Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig yn dweud eu bod yn anfon post yn llai aml nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl ar y cyfan; mae'r duedd hon yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Wrth anfon llythyrau, gwarantu danfon, cost isel a phrisiau unffurf ar draws y DU oedd y ffactorau a oedd yn cael eu nodi amlaf fel y rhai pwysig gan ddefnyddwyr preswyl, a gwarantu danfon oedd yn cael ei nodi fel y ffactor pwysig gan amlaf gan fusnesau bach a chanolig. Roedd danfon y diwrnod canlynol yn bwysig i ganran is o ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig. Wrth ddanfoni parseli, gwarantu danfon a phrawf anfon/danfoni oedd yn cael eu nodi fel y ffactorau pwysig gan gyfran uchel o ymatebwyr ym mhob achos.

Perfformiad ariannol y Busnes

- 1.13 Mae maint enillion cyn llog a threth (EBIT) y Busnes³ wedi gostwng o 4.6% yn 2016-17 i 4.4% yn 2017-18 o ganlyniad i gwmp mewn refeniw a chynnydd bach mewn cost pobl.

² Yn 2017, roedd gostyngiad mewn prisiau termau real o -0.3%. Rydym wedi cyfrifo'r cynnydd cyfartalog mewn prisiau yn wahanol i'r llynedd er mwyn ystyried y gwasanaethau ychwanegol yr ydym wedi adrodd arnynt eleni.

³ Mae'r Busnes yn rhan o fusnes Royal Mail Group sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cyffredinol.

Mae hyn yn llai na'r ystod 5% i 10% ddynodol rydym yn ystyried sy'n cynrychioli cyfradd enillion masnachol resymol o ran gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

- 1.14 Yn 2018, daeth y Cytundeb Tâl a Phensiwn ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu i rym, gan gael effaith gadarnhaol ar gyfraniadau pensiwn disgwylidig y Post Brenhinol. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud y bydd "cost ariannol flynyddol barhaus gyffredinol pensiynau yn parhau i fod yn tua £400m"⁴ a bod "y cam hwn yn angenrheidiol er mwyn osgoi cynnydd disgwylidig yn y cyfraniadau arian i tua £1.2 biliwn y flwyddyn – swm na ellir ei fforddio".⁵
- 1.15 Ar 15 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Royal Mail Group ei ganlyniadau hanner blwyddyn 2018-19. Yn unol â'i ddiweddariad masnachu ar 1 Hydref 2018, dywedodd y Post Brenhinol fod nifer y llythyrau wedi disgyn yn fwy na'r disgwyl, a bod yr enillion effeithlonrwydd disgwylidig a ragwelwyd ar adeg y Cytundeb Tâl a Phensiwn ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu heb gael eu sicrhau. Mae'r Post Brenhinol wedi lleihau ei darged osgoi costau o £230m i £100m ac mae'n disgwyl y bydd elw'r Grŵp cyfan rhwng £500 miliwn a £550 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi cyhoeddi adolygiadau o'i rwydwaith yn y DU ac "o'r cyfleoedd effeithlonrwydd a chynhyrchedd dan ein Cytundeb ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu".⁶
- 1.16 Yn ein barn ni, mae'r gwasanaeth cyffredinol yn debygol o barhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y dyfodol agos gan fod y Busnes yn broffidiol ar hyn o bryd ac nad yw safle ariannol a mesurau iechyd ariannol (gan gynnwys sgôr credyd) y Grŵp Perthnasol yn dangos unrhyw broblemau o ran iechyd ariannol yn y tymor byr.
- 1.17 Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd tymor hir y gwasanaeth cyffredinol yn dibynnu ar allu'r Post Brenhinol i gynyddu refeniw parseli'n ddigonol i wrthbwysu'r cwmp mewn refeniw llythyrau a / neu gael gwared ar gostau o'r busnes. Fel rhan o'n gwaith monitro bob blwyddyn, rydym yn adolygu disgwylidau'r Post Brenhinol o ran perfformiad yn y dyfodol er mwyn llunio barn am ragolygon tymor canolig i dymor hir y Busnes.
- 1.18 Mae'r Post Brenhinol wrthi'n cynnal adolygiad o'i rwydwaith yn y DU "i ddatblygu'r glasbrint ar gyfer rhwydwaith modern, effeithlon wedi'i optimeiddio i ddanfôn llythyrau, parseli a chynnyrch newydd"⁷ ac "asesiad o'r cyfleoedd effeithlonrwydd a chynhyrchedd dan y Cytundeb ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu".⁸ Mae'n disgwyl cwblhau'r adolygiadau hyn yn gynnar yn 2019. Tan fod y Post Brenhinol wedi cwblhau ei adolygiadau ac wedi defnyddio'r canlyniadau i lywio ei broses cynllunio busnes blynyddol, nid ydym yn gallu llunio barn gyfoes am berfformiad disgwylidig y Busnes dros y tymor canolig i'r tymor hir, ond mae disgwyl i ni gael barn gliriach yn y flwyddyn newydd.

⁴ Royal Mail Plc, *Annual Report and Financial Statements 2017-18*, tudalen 4.

⁵ Royal Mail Plc, *Annual Report and Financial Statements 2017-18*, tudalen 9.

⁶ Royal Mail Plc, *Results for the Half Year ended 23 September 2018*, tudalen 4.

<https://www.royalmailgroup.com/media/10493/royal-mail-plc-financial-report-for-the-half-year-ended-23-september-2018.pdf>

⁷ Royal Mail Plc, *Results for the Half Year ended 23 September 2018*, tudalen 4.

⁸ Ibid, tudalen 4.

- 1.19 Tan fod y Post Brenhinol yn cwblhau ei adolygiadau, rydym yn cydnabod bod gennym lai o sicrwydd na blynyddoedd blaenorol o ran sut mae'r Post Brenhinol yn bwriadu delio â'r sefyllfaoedd negyddol amrywiol sydd â'r potensial i effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol dros y tymor canolig i'r tymor byr. Ymysg y risgiau negyddol hyn mae rhagor o gystadleuaeth yn y farchnad parseli a methu gwireddu digon o arbedion effeithlonrwydd.
- 1.20 Gweler Adrannau 6 a 7 am ragor o fanylion.

Effeithlonrwydd y Post Brenhinol

- 1.21 Mae gan y Post Brenhinol gymhelliant cryf i fod yn fwy effeithlon yn y dyfodol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol. Mae cynnydd o ran effeithlonrwydd yn debygol o wella proffidoldeb y Busnes a helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol.
- 1.22 Gostyngodd cyfanswm costau ar gyfer y Busnes 3% mewn termau real yn 2017-18 (o'i gymharu â 0.4% yn y flwyddyn flaenorol). Ond mae'r lleihad hwn mewn costau oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys costau untro, newidiadau mewn nifer ac arbedion effeithlonrwydd. Mae dadansoddiad PVEO yn ffordd ddefnyddiol o fesur effeithlonrwydd gwelliannau drwy nodi Pris, Nifer, Effeithlonrwydd a ffactorau "Eraill" (hy costau untro) ar wahân. Mae'n dangos gwelliant sylfaenol mewn effeithlonrwydd (ac eithrio costau trawsnewid) o tua 2.8% yn 2017-18 (o'i gymharu â thua 2.2% yn y flwyddyn flaenorol). Cafodd y rhan fwyaf o'r arbedion cost yn 2017-18 eu sicrhau drwy gostau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl.
- 1.23 Cwtogodd y Post Brenhinol ar gyfanswm yr oriau gros yr oedd gweithwyr yn eu treulio'n danfon ac yn prosesu 0.9% yn 2017-18, yn is na'r gostyngiad o 1.9% yn y flwyddyn flaenorol. Ond cynyddodd costau pobl ar gyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn, gyda'r refeniw ar gyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn gostwng. Roedd hyn yn golygu bod costau pobl yn cynyddu o'i gymharu â'r refeniw.
- 1.24 Yn hanner cyntaf 2018-19, nid yw perfformiad y Post Brenhinol o ran effeithlonrwydd wedi cyrraedd ei ddisgwyliadau. Mae hyn yn bryder i ni gan ein bod yn credu bod effeithlonrwydd yn dal yn hollbwysig i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol.

Cydymffurfio â'r rheoliadau

- 1.25 Mae'r Post Brenhinol yn gorfod rhoi cap diogelu ar bris stampiau Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau, llythyrau mawr a pharseli hyd at 2kg, i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaeth post cyffredinol sy'n fforddiadwy. Mae'r capiau'n atal y Post Brenhinol rhag codi prisiau'n uwch na chwyddiant, yn ôl yr hyn a fesurir gan y CPI.⁹ Roedd y cynnydd ym mhrisiau'r Post Brenhinol ar gyfer 2018-19 yn cydymffurfio â'r capiau diogelu hyn. Cododd prisiau stampiau Dosbarth Cyntaf mewn termau nominal a thermiau

⁹ Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, neu CPI, yn mesur chwyddiant ac yn mesur newidiadau mewn lefelau prisiau basged o nwyddau a gwasanaethau mae cartrefi yn eu prynu.

real yn 2018-19 o'u cymharu â 2016-17, o 65c i 67c mewn termau nominal.¹⁰ Gostyngodd prisiau bob cynnyrch parcel Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth hyd at 2kg mewn termau real.

- 1.26 Ar y cyfan, nid oedd perfformiad y Post Brenhinol o ran ansawdd gwasanaethau cystal yn 2017-18 o'i gymharu â 2016-17, gan fethu llawer o'i dargedau rheoleiddiol. Ni chyrhaeddodd y Post Brenhinol ei dargedau cenedlaethol ar gyfer Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, na'i darged ar gyfer Ardal Cod Post.¹¹ Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i gydymffurfiaid y Post Brenhinol yn 2017-18 ac yn disgwyl cyhoeddi ein canfyddiadau yn gynnar yn 2019.
- 1.27 Roedd nifer y cwynion a dderbyniodd y Post Brenhinol wedi codi 10.3% o'i gymharu â'r llynedd. Er mai eitemau ar goll yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros gwyno, cwmpodd y gyfran hon 3.9 pwynt canran o'i chymharu â'r llynedd. Yr ail gategori mwyaf, gwadu derbyn, oedd â'r cynnydd uchaf yng nghyfran y cwynion, gan gynyddu 3.5 pwynt canran. Rydym yn trafod â'r Post Brenhinol i ddeall y rhesymau dros y cynnydd hwn. Ar ben hynny, dan ein rheoliadau, rhaid i'r Post Brenhinol gael cynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) ar waith os nad yw'n gallu datrys y gwyn.

¹⁰ Y prif wahaniaeth rhwng gwerthoedd nominal a gwerthoedd real yw bod gwerthoedd real yn cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant, yn wahanol i werthoedd nominal.

¹¹ Mae'r targed ar gyfer Ardal Cod Post yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon 91.5% o bost Dosbarth Cyntaf y diwrnod ar ôl ei gasglu o flwch post, Swyddfa Bost neu bwynt casglu arall ar gyfer 118 o'r 121 o ardaloedd cod post.